
PORTHLADDOEDD CYMRU

INJANS AR GYFER TWF
CHENEDLAETHOL A
RHANBARTHOL

CYNNWYS

03

Grŵp Porthladdoedd Cymru:
Cynrychioli diwydiant hanfodol

03

Porthladdoedd a datganoli

04

Brexit – heriau a chyfleoedd

04

Cefnogi busnes a diwydiant

05

Diwydiant porthladdoedd Cymru

06

Ffeithiau a ffigyrau

07

Buddsoddi mewn cysylltiadau a seilwaith

08

Datblygu cynaliadwy

09

Dyfodol blaengar i Gymru

10

Cyfeiriadur Porthladdoedd Cymru



GRŴP PORTHLADDOEDD CYMRU

CYNYRCHIOLI SECTOR HANFODOL

Mae porthladdoedd yng Nghymru'n fynedfeydd rhyngwladol hanfodol ac yn ganolfannau cyflogi rhanbarthol a chenedlaethol fel ei gilydd. Mae'r diwydiant porthladdoedd Cymreig yn annibynnol o'r Llywodraeth yn strategol ac yn ariannol ac mae'n gweithredu o dan amgylchedd rheoliadol a chynllunio unigryw. Grŵp Porthladdoedd Cymru yw'r unig fforwm sy'n cynrychioli barnau'r sector pwysig hwn yng Nghymru. Wedi'i gydlynu gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain a Grŵp Prif Borthladdoedd y DU, mae'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill.

Mae Grŵp Porthladdoedd Cymru yn cynnwys yr holl brif borthladdoedd sy'n trafod cargo yng Nghymru yn ogystal ag ystod eang o borthladdoedd llai o faint sy'n canolbwyntio ar weithgarwch hamdden, adloniant a physgota morol. Cadeirydd cyfredol y Grŵp yw Rheolwr Porthladd ABP Caerdydd a'r Barri, Callum Couper, ac mae'n helpu i yrru agenda'r Grŵp yn ei flaen ac yn cynrychioli'r diwydiant ar nifer o fforymau a lefelau.

PORTHLADDOEDD A DATGANOLI

Mae Deddf Cymru 2017 yn cynnwys cynigion i ddatganoli'r rhan fwyaf o swyddogaethau polisi porthladdoedd i Lywodraeth Cymru. Yn ystod taith y Ddeddf trwy San Steffan roedd barn Grŵp Porthladdoedd Cymru ynghylch hyn yn niwtral, fodd bynnag erbyn hyn rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn edrych ar y cyfleoedd posibl ar gyfer y sector. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw'r fframwaith polisi.

Disgwylw'n i hyn drosi'n agwedd sefydlog ac a arweinir gan y farchnad ar ran y Llywodraeth tuag at bolisi porthladdoedd, gan gynnal y model o berchnogaeth gymysg a chwarae teg cyffredinol ar gyfer holl borthladdoedd Cymru, fel nad ydynt dan anfantais o'i gymharu â phorthladdoedd tu allan i Gymru. Mae'r fframwaith sydd wedi tanategu polisi porthladdoedd yn Lloegr a Chymru hyd yma yn dempled da ar gyfer strategaeth Gymreig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwyddion cadarnhaol y bydd yn parhau â dull gweithredu a arweinir gan y farchnad ar gyfer porthladdoedd ac rydym yn awyddus i agor trafodaeth.

O ddi-ddordeb hefyd yw'r trefniadau a'r ffordd o ddyrannu adnoddau ar gyfer creu uned porthladdoedd newydd yng Nghymru, y bydd ganddi rôl caniatáu a threfn lywodraethol allweddol, gan oruchwylio ceisiadau Gorchymyn Diwygio Harbwr a materion deddfwriaethol ynghylch porthladdoedd. Rydym yn cynnal sgwrsiau da gyda swyddogion yng Nghymru ac edrychwn ymlaen at barhau â thrafodaethau ar y pwyntiau hyn gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae twf economaidd yng Nghymru'n hanfodol ac mae porthladdoedd yn darparu canolfannau gweithgarwch. Bydd sicrhau fod porthladdoedd yn gallu cael mynediad i ddigon o dir datblygu a chyfyngu ar anogaeth allanol gan ddulliau defnyddio eraill nad ydynt yn gysylltiedig â phorthladdoedd yn golygu bod porthladdoedd Cymru'n barod i ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae'r Grŵp hefyd yn dilyn mentrau eraill yn agos fel cynllun 'Cronfa Datblygu Porthladdoedd' diweddar Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau fod porthladdoedd Cymru'n archwilio cyfleoedd ymchwil a datblygu newydd.

BREXIT – HERIAU A CHYFLEOEDD

Mae gadael yr Undeb Tollau, y Farchnad Sengl, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a fframweithiau amgylcheddol yr UE'n cynrychioli newid a allai fod yn ddramatig o safbwynt porthladdoedd. Gan fod porthladdoedd y DU'n trafod 95% o'n masnach ryngwladol, golyga hyn y byddant, yn llythrennol, ym mlaen y gad o ran trefniadau masnachu newydd.

Yn ddiamaheuaeth, ceir cyfleoedd masnachu byd-eang newydd, ond mae'n hanfodol na chaiff dolenni cyswllt cyfredol gyda gwladwriaethau'r UE eu gorlwytho gan wiriadau tollau a llywodraethol ar y ffin. Mae perygl gwirioneddol yn bodoli o dagfeydd mewn porthladdoedd os cyflwynir gofynion biwrocraidd newydd ar ôl Brexit, yn enwedig ar gyfer HGVs sy'n teithio i/o Iwerddon, trwy borthladdoedd Fferiau Gyrru Mewn ac Allan allweddol Cymru.

Er gwaethaf Brexit mae'r UE yn ffynhonnell arall o ddeddfwriaeth. Mae llawer o'r fframweithiau amgylcheddol a chynllunio y mae porthladdoedd yn gweithredu oddi tanynt yn deillio o reolau'r UE. Wrth symud tuag at ymadawiad y DU o'r UE ceir cyfleoedd i symleiddio'r drefn caniatáu a rhoi penderfyniadau cynllunio ar lwybr cyflym ar gyfer porthladdoedd. Bydd hyn yn helpu porthladdoedd Cymru gystadlu yn yr amgylchedd ar ôl Brexit. Mae'n hanfodol nad yw dynodiadau amgylcheddol cyfredol a newydd yn tagu gweithgarwch porthladdoedd a chyfyngu ar ddatblygiadau porthladdoedd.

Mae llawer o borthladdoedd Cymru'n dibynnu ar lanio pysgod o longau dan faneri'r UE ac mae hyn yn helpu cynnal y diwydiant pysgota Cymreig ehangach ac yn bwysig i rannau eraill o'r economi fel busnesau arlwygo a bwyta. Mae sicrhau parhad gweithgareddau pysgota cyfredol yn bwysig, yn enwedig i borthladdoedd llai yng Nghymru. Mae'r diwydiant a phorthladdoedd pysgota Cymreig wedi elwa'n ogystal o system grantiau pysgodfeydd yr UE ac o ystyried y symiau cymharol fach, byddwn yn annog Llywodraethau'r DU a Chymru i lunio cynllun domestig tebyg yn y dyfodol, ar ôl Brexit.

Mae Rheoliad Gwasanaethau Porthladd (PSR) yr UE a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn cynrychioli cyfyngiad hynod ddigroeso ar allu llawer o'r porthladdoedd mwy o faint yng Nghymru i wneud dewisiadau ynghylch darparu gwasanaethau a phrisio. Gwerthfawrogyd cymorth ASEau Cymreig yn ystod taith y PSR yn fawr iawn gan y sector porthladdoedd yng Nghymru. Erbyn hyn rydym yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i edrych ar d dulliau o gyfyngu ar yr effeithiau negyddol posibl y gall y ddeddfwriaeth eu cyflwyno ar gyfer porthladdoedd y DU a Chymru.


CEFNOGI BUSNES A DIWYDIANT

Bob blwyddyn mae porthladdoedd Cymru'n trafod **11%**, neu oddeutu **54m** tunnell, o lwythi'r DU ac mae hyn yn cynnwys cyfeintiau sylweddol o drafnidiaeth fferi, olew a nwy, cynwysyddion, dur, biomas, llwythi swmp yn ogystal â llwythi adnewyddadwy alltraeth eraill. Yn ogystal, mae porthladdoedd Cymru'n darparu cyfleusterau hanfodol ar gyfer llongau mordeithiau, gweithgareddau hamdden morol a'r diwydiant pysgota. Mae'r rhain yn fasnachau amrywiol a sylfaenol, sy'n cefnogi bron i 11,000 o swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol a swyddi gwneud yn ogystal â chynnal rhannau hanfodol o'r economi.

Gwasanaethir economïau Cymru a'r DU gan gadwyni dosbarthu sy'n rhychwantu'r ddaear gyfan – nwy o Qatar a Thrinidad; mwyn haearn o Awstralia a'r Americas, cynhyrchion adeiladu a masnachau hanfodol eraill i Ewrop ac o Ewrop; olew a thanwydd i ac oddi wrth bob cwr o'r byd gan gynnwys yr Unol Daleithiau, De America, Gorllewin Affrica ac Asia; a gwasanaethau fferi 'traffyrdd y môr' i Iwerddon. Fesul pob tunnell o nwyddau a symudir, cludo ar long sydd â'r effaith amgylcheddol isaf. Oherwydd hyn, mae cysylltiad cryf rhwng cynaliadwyedd yn ein heconomi a buddsoddiad mewn ardaloedd porthladd a'r seilwaith sy'n eu gwasanaethu.

Mae'r DU'n darparu dolen hanfodol ar ffurf 'sarn gyswllt' ar gyfer llwythi a nwyddau rhwng cyfandir Ewrop ac Iwerddon. Mae porthladdoedd fferi Cymreig yn hanfodol i'r ddolen gyswllt. Mae'r llwybrau hyn yn fynedfeydd pwysig i deithwyr, yn ogystal, ac yn 2016 trefnodd porthladdoedd Cymru ddwy filiwn a hanner o deithiau teithwyr ar fferiau.

**BOB BLWYDDYN MAE
Porthladdoedd
CYMRU'N TRAFOD 11%,
NEU ODDEUTU 54M
TUNNELL, O LWYTHI'R DU**



DIWYDIANT PORTHLADDOEDD CYMRU

Mae porthladdoedd a harbwr yn gynnyrch eu lleoliadau. Maent yn amrywio'n eang o ran maint a math o weithgarwch, a gallant feddu ar bwysigrwydd leol, rhanbarthol ac weithiau cenedlaethol.

Ar wahân i'r gweithrediadau masnachol sydd fel rheol yn gysylltiedig â phorthladdoedd – sef trafod llwythi a theithwyr – maent yn ymgymryd â llawer o ddyletswyddau statudol pwysig, sy'n ymestyn o sicrhau diogelwch mordwyo i weithredu cyfundrefnau diogeledd ac amgylcheddol soffistigedig. Maent yn darparu cyfleusterau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr ac yn cynnal amrywiaeth o fusnesau.

Ceir tri model o berchnogaeth ar borthladdoedd, sef ymddiriedolaeth, trefol ac wedi'u preifateiddio. Maent oll yn bodoli ochr yn ochr yng Nghymru ac nid yw eu statws yn effeithio ar eu hannibyniaeth. Mae porthladd ymddiriedolaeth yn gorff statudol annibynnol dan reolaeth ei ddeddfwriaeth leol ei hun ac a reolir gan fwrdd annibynnol.

Mae porthladdoedd ymddiriedolaeth yn meddu ar lefel uchel o atebolrwydd a byddant yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ynghylch sut ddylent arddangos atebolrwydd a chynnydd masnachol. Mae porthladdoedd Ymddiriedolaeth yng Nghymru yn amrywio o ran eu maint ac yn cynnwys Aberdaugleddau, Castell-nedd, Casnewydd, Caernarfon a Saundersfoot.

Ceir sector porthladd wedi'i breifateiddio sylweddol yng Nghymru. Mae porthladdoedd wedi'u preifateiddio yn gwmnïau dan berchnogaeth breifat, weithiau'n rhan o grŵp mwy o faint o borthladdoedd, er enghraifft porthladdoedd De Cymru sy'n rhan o Borthladdoedd Cysylltiol Prydain (ABP) sy'n cynnwys y gweithrediadau yn y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Port Talbot ac Abertawe. Mae porthladdoedd eraill dan berchnogaeth breifat yn cynnwys Porthladdoedd Stena Line Caerdydd ac Abergwaun a phorthladd Mostyn sydd dan berchnogaeth annibynnol.

Gweithredir porthladdoedd trefol gan awdurdodau lleol. Mae ganddynt eu canllawiau trefn lywodraethol eu hunain sy'n pwysleisio buddion annibyniaeth ariannol trwy ddiogel cyfrifon yn ogystal â sefydlu strwythurau corfforaethol gyda dull bwrdd mwy traddodiadol o fynd ati, gan ganiatáu i'r adran weithredol weithio gyda bwrdd sydd ag amrediad o wybodaeth arbenigol forol a busnes. Mae enghreifftiau o awdurdodau lleol Cymreig sydd â buddion porthladd yn cynnwys cynghorau Conwy ac Ynys Môn. Gan mwyaf, mae porthladdoedd awdurdod lleol yng Nghymru yn harbwr llai sy'n canolbwyntio ar hamdden a physgota.

LLEOLIAD PORTHLADDOEDD YNG NGHYMURU



- | | |
|-----------------|------------------|
| 01 Aberaeron | 17 Milford Haven |
| 02 Aberdyfi | 18 Mostyn |
| 03 Aberystwyth | 19 Neath |
| 04 Amŵch | 20 Newport |
| 05 Bangor | 21 New Quay |
| 06 Barmouth | 22 Penarth |
| 07 Barry | 23 Penryn |
| 08 Beaumaris | 24 Porthcawl |
| 09 Burry Port | 25 Porthcais |
| 10 Caernarfon | 26 Porthmadog |
| 11 Cardiff | 27 Port Talbot |
| 12 Conwy | 28 Pwllheli |
| 13 Fishguard | 29 Rhyl |
| 14 Holyhead | 30 Saundersfoot |
| 15 Llanddulas | 31 Swansea |
| 16 Menai Bridge | 32 Tenby |





PORTHLADDOEDD CYMRU: FFEITHIAU A FFIGYRAU

- Yn 2016 mewnforiodd ac allforiodd porthladdoedd Cymru 54 miliwn tonnell o lwythi, mwy nag 11% o gyfanswm trwygyrch y DU sy'n cyfateb i 18 tonnell o lwythi am bob person yng Nghymru.
- Yn 2015 rhoddodd borthladdoedd Cymru gyfrif am 1.2% o Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) Cymru, sy'n dod i £560 miliwn.
- Ar hyn o bryd mae'r sector porthladdoedd yng Nghymru'n creu oddeutu 11,000 o swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol a swyddi gwneud.


EFFAITH RANBARTHOL DIWYDIANT PORTHLADDOEDD Y DU YN 2015

GVA (£MILIWN)					
	Uniongyrchol	Anuniongyrchol	Gwneud	Cyfanswm	% of GVA
Cymru	140	220	190	560	1.2%

CYFLOGAETH					
	Uniongyrchol	Anuniongyrchol	Gwneud	Cyfanswm	% o Gyflogaeth
Cymru	2,600	4,500	3,800	10,900	0.9%

GWEITHGAREDDAU YM MHORTHLADDOEDD CYMRU

NIFER Y PORTHLADDOEDD



BUDDSODDI MEWN CYSYLLTIADAU A SEILWAITH



Mae trafndiaeth a seilwaith yn hollbwysig i economi llwyddiannus ac mae porthladdoedd Cymru'n fynedfa bwysig ar gyfer masnach ryngwladol. Yn genedlaethol ac yn lleol, mae gallu Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y rhwydwaith trafndiaeth yn ffactor allweddol.

Mae'r mwyafrif helaeth o nwyddau a theithwyr yn cyrraedd a gadael porthladdoedd trwy gyfrwng ffyrdd sydd, oherwydd hyn, yn hanfodol i'n llwyddiant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd nifer o fentrau a chynlluniau gan y llywodraeth i hybu trafndiaeth, ynni ac adfywio. Gan mwyaf, cafwyd y rhain groeso mawr, er bod ariannu'n parhau i fod ar lefel gymharol isel. Mae cysylltedd yn cwmpasu llawer i agwedd, gan gynnwys nid yn unig gwelliannau i'r M4 a thrydanu'r rheilffordd, ond, yn ogystal, buddsoddi mewn band llydan o gyflymder uchel. Mae'r rhain i gyd yn gwneud cyfraniad i sicrhau fod porthladdoedd ac economi Cymru'n parhau i fod yn gystadleuol ac yn ddeinamig.



DATBLYGIAD CYNALIADWY

**FESUL BOB TUNNELL O LWYTHI A SYMUDIR, CLUDO AR
LONG SYDD Â'R EFFAITH LEIAF AR YR AMGYLCHEDD.**

Mae gan borthladdoedd Cymru hanes rhagorol o warchod yr amgylchedd ac mae'r diwydiant wedi ymrwymo i wneud cynnydd pellach ar ei gyflawniad amgylcheddol da. Mae datblygiadau porthladd yn ddarostyngedig i gyfundrefn drylwyr o gynllunio a chaniatáu. Rydym yn awyddus i weld y prosesau hyn yn cael eu symleiddio cymaint ag a ellir er mwyn helpu porthladdoedd fwrw ymlaen gyda phrosiectau. Er mwyn iddynt allu gweithredu a datblygu, yn aml mae angen trwyddedau morol penodol ar borthladdoedd a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gall y rhain fod ar gyfer treillio er mwyn cynnal mynediad diogel i longau neu ar gyfer datblygiadau newydd. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r gyfundrefn ffioedd trwyddedau morol a bydd rhywfaint o gynnydd mewn costau ar gyfer rhai porthladdoedd.

Mewn cymhariaeth â rhannau eraill o'r DU, mae porthladdoedd Cymru dan anfantais yn nhermau gofynion trwyddedu morol a chyfnodau amser cyfyngedig caniatadau treillio, a allant, mewn rhai achosion yn Lloegr, fod mwy na theirgwaith yn hwy, o ran amser, nag yng Nghymru, wrth barhau i gynnal dulliau diogelu cywir ar weithgarwch datblygwyr. Mae llawer o weithgareddau yn dal i fod angen trwyddedau a boom yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno nifer o eithriadau ar gyfer gweithgareddau risg isel,

fel y gwelir yn Lloegr. **O ystyried sensitifrwydd marchnadoedd porthladd mae'r diffyg cynnydd yn y maes hwn wedi achosi rhwystredigaeth i ddiwydiant porthladdoedd Cymru.**

Rydym yn awyddus, yn ogystal, fod y tîm caniatáu, fel rhan o'r arolwg, yn canolbwyntio'n gryf ar wasanaethau cwsmeriaid a'i lefelau cyflawni ei hun. Mae angen i amodau trwyddedu ar gyfer caniatadau datblygu porthladd fod yn gymesur.

Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gynhyrchu ei Gynllun Morol Cenedlaethol ei hun. Bydd y Cynllun yn darparu fframwaith strategol ar gyfer pob gweithgarwch arfordirol yng Nghymru ac mae'n ofynnol iddo gydbwysu gweithgareddau cymdeithasol-economaidd a chynaliadwyedd. Mae drafft cyfredol y Cynllun yn cydnabod gweithgareddau porthladd a morludo pwysig. Yn ein barn ni, mae rhai o'r polisïau cyffredinol yn rhy ragnodol ac rydym wedi ysgrifennu at swyddogion cyn hyn gan amlinellu ein pryderon. Mae'n hanfodol nad yw'r Cynllun hwn yn cyfyngu ar ddatblygiad a thwf.



CYNNAL DYFODOL SECTOR BLAENGAR

Fel dull o hyrwyddo cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru, mae Grŵp Porthladdoedd Cymru wedi cynhyrchu nifer o Amcanion Polisi a Rennir awgrymedig a fyddent yn helpu i gynnal cyfraniad a dyfodol economaidd diwydiant Porthladdoedd Cymru. **Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Trafodaethau diwydiant/llywodraeth rheolaidd
- Cynnal y dull gweithredu cyfredol a arweinir gan y farchnad mewn perthynas â pholisi porthladdoedd
- Cefnogaeth ar gyfer y cymysgedd cyfredol o fodelau perchnogaeth porthladd gwahanol
- Symleiddio'r system cynllunio a chaniatáu morol
- Hyrwyddo strategaeth gwarchod y môr sy'n cydbwysu anghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol
- Hyrwyddo fframwaith polisi sy'n caniatáu i borthladdoedd Cymru barhau i fod yn gystadleuol o gymharu â'r rhai sydd tu allan i Gymru
- Sicrhau gwell cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynlluniau gwella cysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd i borthladdoedd Cymru i annog cynnydd mewn symudiadau nwyddau a theithwyr
- Cyfnewid gwybodaeth am gyfleoedd twf mewn marchnadoedd porthladd.

**EDRYCHWN YMLAEN AT DRAFODAETHAU YNGHYLCH Y PWYNTIAU
HYN GYDA SEFYDLIADAU ALLWEDDOL A'N CYDWEITHWYR YN
LLYWODRAETH CYMRU A CHROESAWN Y CYFLE I WNEUD HYNNY.**

CYFEIRIADUR PORTHLADDOEDD CYMRU



ABP Y Barri

Y Barri

CF63 3US

Prif Rif Ffôn: 0870 609 6699

Gwefan: www.abports.co.uk

Cysylltwch â: John Phillips – Rheolwr Masnachol a Logisteg -
JPhillips@abports.co.uk



ABP Port Talbot

Tŷ Puckey,

Harbwr Port Talbot,

Port Talbot,

SA13 1RB

Ffôn: 0870 609 6699

Gwefan: www.abports.co.uk

Cysylltwch â: John Phillips – Rheolwr Masnachol a Logisteg -
JPhillips@abports.co.uk



ABP Caerdydd

QA House,

Cargo Road,

Caerdydd,

CF10 4LY

Ffôn: 02920 835 062

Gwefan: www.abports.co.uk

Cysylltwch â: Ralph Wendeatt – Pennaeth Masnachol
rwindeatt@abports.co.uk



ABP Abertawe

Swyddfa'r Harbwr,

Lockhead,

Doc y Brenin,

Abertawe

SA1 1QR

Ffôn: 0870 609 6699

Gwefan: www.abports.co.uk

Cysylltwch â: John Phillips – Rheolwr Masnachol a Logisteg -
JPhillips@abports.co.uk



ABP Casnewydd

Port House

Doc Alexandra

Casnewydd

NP20 2UW

Prif Rif Ffôn: 02920 835 062

Gwefan: www.abports.co.uk

Cysylltwch â: Ralph Wendeatt – Pennaeth Masnachol
rwindeatt@abports.co.uk



Harbwr Conwy (Cyngor Sir Conwy)

Swyddfa'r Harbwr

Cei Conwy

Conwy

LL32 8BB

Prif Rif Ffôn: 01492 596 253

Gwefan: www.conwy.gov.uk

Cysylltwch â: • Matthew Forbes, Harbwrfeistr

harbwr.conwy.harbour@conwy.gov.uk

• Barry Tuson, Dirprwy Harbwrfeistr

barry.tuson@conwy.gov.uk

Mathau o Draffig a drafodir: Pysgota a hamdden.



Porthladd Abergwaun - Stena Line Ports Ltd

Wdíg
 Sir Benfro
 SA64 0BU
Prif Rif Ffôn: 01348 404425
Gwefan: www.fishguardport.com
Cysylltwch ag: • Ian Davies, Rheolwr Llwybrau
 ian.davies@stenaline.com
Mathau o Draffig a drafodir: Ro-Ro.



Porthladd Caer gybi - Stena Line Ports Ltd

Tŷ Stena, Heol yr Orsaf
 Caer gybi
 Sir Fôn
 LL65 1DQ
Prif Rif Ffôn: 01407 606 660
 01407 606 666
Gwefannau: www.holyheadport.co.uk / www.stenaline.com
Cysylltwch â: • Capten Wyn Parry, Rheolwr Llongau a'r Porthladd -
 wyn.parry@stenaline.com
Mathau o Draffig a drafodir: Ro-ro, llwythi cyffredinol, swmp
 lwythi, a llongau mordeithiau.



Gwasanaethau Morol Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni
 Sir Fôn, LL77 7TW
Prif Harbwr: Harbwr Amlwch
 Pier Biwmares a Porthaethwy
Prif Rif Ffôn: 01248 752 320
Gwefan: www.anglesey.gov.uk/leisure/maritime-services
Cysylltwch â: • John Owen, Uwch Swyddog Morol
 joxht@anglesey.gov.uk
Mathau o Draffig a drafodir: Hamdden, pysgod.



Porthladd Aberdaugleddau

Gorsewood Drive
 Aberdaugleddau
 Sir Benfro, SA73 3EP
Prif Rif Ffôn: 01646 696100
Gwefan: www.mhpa.co.uk
Cysylltwch ag: • Alec Don, Prif Weithredwr
 01646 696 100, alec.don@mhpa.co.uk
 • Andy Jones, Dirprwy Brif Weithredwr
 01646 696 100, andy.jones@mhpa.co.uk
Mathau o Draffig a drafodir: Swmp lwythi hylif, ro-ro, pysgod,
 swmp lwythi sych, cargoau prosiect, cargo cyffredinol, a llongau
 mordeithiau.



Porthladd Mostyn Cyfyngedig

Ffordd yr Arfordir, Treffynnon, Sir Fflint, CH8 9HE
Prif Rif Ffôn: 01745 560 335
Gwefan: www.portofmostyn.co.uk
Cysylltwch â: • Mr. Jim O'Toole, Rheolwr Gyfarwyddwr
 jim.otoole@portofmostyn.com
 • Capten Roy Hyde-Linaker, Harbwrfeistr
 harbourmaster@portofmostyn.com
 • Mr. William Calderbank, Rheolwr Porthladd
 will.calderbank@portofmostyn.com
Mathau o Draffig a drafodir: Cargo cyffredinol, llwythi swmp, ro-ro,
 cargoau prosiect – canolfannau gwasanaeth ffermydd gwynt ar y môr.



Awdurdod Porthladd Castell-nedd

Tŷ Woodfield, Rhodfa'r Castell, Castell-nedd,
 Gorllewin Morgannwg, SA11 3LN
Prif Rif Ffôn: 01639 633 486
Gwefan: www.npt.gov.uk
 Cysylltwch â: GT Pullen, Cadeirydd
 R Minty, Rheolwr
 RW Hemming, Harbwrfeistr
E-bost: portofneath@btconnect.com
Mathau o Draffig a drafodir: Allforio torchau dur, deunyddiau
 sgrap, gwastraff y gellir ei ailgylchu, mewnforio porthiant
 anifeiliaid, halen, barrau cryfhau a thywod.



Comisiynwyr Harbwr Casnewydd

24 Stryd y Bont, Casnewydd, Cymru, NP20 4SF
Prif Rif Ffôn: 01633 265 323
Gwefan: www.newportharbourcommissioners.org.uk
Cysylltwch â: Colin Crick, Cadeirydd
 Jill Lloyd, Clerc y Comisiwn
E-bost: clerk@newportharbourcommissioners.org.uk
Mathau o Draffig a drafodir:
 Gwasanaethau cadwraeth ar gyfer Harbwr Casnewydd.



Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot

Yr Harbwr, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9HE
Prif Rif Ffôn: 01834 812 094
Gwefan: www.saundersfootharbour.co.uk
Cysylltwch â: • Mr M Davies, Prif Swyddog Gweithredol
 mdavies@saundersfootharbour.co.uk
 • Mr P Evans – Cadeirydd
 • Mr E Sangster – Is-gadeirydd
E-bost: info@saundersfootharbour.co.uk
Mathau o Draffig a drafodir:
 Cychod hamdden, pysgota a phleser masnachol.



CYNHYRCHWYD GYDA CHYMORTH Y GRONFA DATBLYGU PORTHLADDOEDD